Liturgies England [illegible]. Partic

K

FFURF GWEDDI,

A

DIOLCHGARWCH

I'R

HOLLALLUOG DDUW;

I'w harſer yn y

Waſanaeth Foreol a Phrydnhawnol,

Ar ol y

DIOLCH CYFFREDINOL,

Trwy Ddinaſoedd *Llundain* a *Weſtminſter*, a Lleoedd eraill o fewn y Biliau Marwoldeb, ar Ddydd *Sul*, yr Wythfed ar hugain o Fis *Mawrth*, 1762; ac ym mhob Eglwys a Chapel trwy *Leogr* a *Chymru*, ar y *Sul* neſaf ar ol ei Dderbyniad gan y Gweinidogion; am Ffynniant rhyfeddol Byddin a Llynges Ei Fawrhydi yn erbyn Ynys *Martinico*.

Trwy Orchymyn Hyſpyſol Ei Fawrhydi.

LLUNDAIN:
Argraphwyd gan *Marc Baſcett*, Argraphydd i Ardderchoccaf Fawrhydi'r Brenhin; a chan Wrthddrychiaid *Rhobert Baſcett*, 1762.

BRITISH MUSEUM

FFURF GWEDDI A DIOLCHGARWCH I'R HOLLALLUOG DDUW.

O Arglwydd, yr hwn wyt yn amlhau Arwyddion o'th Ffafr fel y maent hwy yn amlhau y ſydd yn cyfodi i'n herbyn, ac yn gwobrwyo a Buddugoliaeth Dymuniad diffuant ein graſuſol Frenhin am Heddwch; gan lewygu Calonnau Ei Elynion, a gwanhau eu Dwylaw; Ni a roddwn i ti ein Diolch mwyaf defoſiynol, am ganiattau Ffynniant mor rhyfeddol, mewn ychydig Amſer, a chyn lleied Golled, i Fyddin a Llynges Ei Fawrhydi, trwy Ymoſtyngiad

Ynys

Ynys gwerthfawr *Martinico* iddo Ef. Y mae dy Fwynder trugarog yn ymddangos tu ag attom ni fwyfwy bob amſer: Ti a'n llawenychaiſt ni trwy dy Weithredoedd; ac ni a ymlawenhawn i roddi i ti Foliant am Weithrediad dy Ddwylaw di. Ti a fuoſt ein Cymmorth; na ymad a ni, ac na'n gwrthod ni, O Dduw o'n Iachawdwriaeth: ond par i ni a'n Cynhalwyr orfoleddu dros ein Gwrthwynebwyr; fel y bo i'r hwn ſydd yn porthi a'r hwn a borthir gwympo ynghyd, nes iddynt gweled, nad oes na Doethineb, na Dealltwriaeth, na Chyngor yn erbyn yr Arglwydd. A bydded i'n Diolchgarwch ni fod yn gyfartal i'th Daioni di: bydded i ni fod yn llwyr ſynhwyrol, mai o'th Gynhaliaeth o'n Uniondeb a'n Hachos ni y mae'n holl Lwyddiant yn tarddu, ac i ni ymddiried ynot ti yn unig am roddi i ni Orphwyſtra ym mhob man; fel, wedi ein gwaredu o Ddwylaw ein Gelynion, y bo i ni dy waſanaethu di yn ddiofn, mewn Sancteiddrwydd a Chyfiawnder, holl Ddyddiau ein Bywyd, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd; i'r hwn, gyd a thydi, O Dad, a'r Yſpryd Glan, bydded yr holl Anrhydedd a'r Gogoniant, byth bythoedd. Amen.

DIWEDD.

13 MA 67